

WILLIAMS, DAVID ('Alaw Goch'; 1809 - 1863), perchennog pyllau glo ac eisteddfodwr

Enw: David Williams
Ffugenw: Alaw Goch
Dyddiad geni: 1809
Dyddiad marw: 1863
Priod: Ann Williams (née Morgan)
Plentyn: Gwilym Williams
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: perchennog pyllau glo ac eisteddfodwr
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Eisteddfod
Awdur: Watkin William Price

Ganwyd 12 Gorffennaf 1809 yn Llwyn Drain, plwyf Ystradowen, Sir Forgannwg. Tua'r flwyddyn 1821 symudodd ei rieni i Aberdâr a bu'r mab yn dilyn galwedigaeth ei dad, sef llifwr coed, am beth amser. Ymhen ychydig amser, fodd bynnag, aeth David Williams i fyd y glo, a thrwy ei ddycnwch, ei allu, a'i ddyfalbarhad cyrhaeddodd i safle o bwys ym myd y diwydiant glo yn Neheudir Cymru. Yn Ynyscynon, Cwmbach, y bu ei gynneg cyntaf at ddyfod yn berchennog gwaith glo; yno, gyda Lewis Lewis, Cefn Coed, dechreuodd gloddio pwll glo yn 1847, ar brydles (48 mlynedd) a oedd wedi ei dyddio 31 Rhagfyr 1844 (N.L.W. Ewenny MS. 374.) Rhoes Lewis y gorau i'r gwaith eithir parhaodd Williams a llwyddo. Yn fuan wedyn agorodd bwll arall yn Nhreaman gan prydles gan **Crawshay Bailey**, a roes gymorth mawr iddo; daeth y pwll hwn i gael ei enwi yn Williams's Pit. Yn ddiweddarach cloddiodd y 'Deep Duffryn Colliery' yn Aberpennar, ac wedi iddo ddechrau codi gwerthodd y pwll i John Nixon am £42,000. Gyda'r arian a gafodd cloddiodd bwll yng Nghwmdâr, 1853, ac yna, ar ôl dechrau cael y glo, gwerthodd y pwll hwn hefyd. Trwy hyn daeth yn gyfoethog a phrynodd diroedd yn Llanwynno (gweler *Plwyf Llanwynno*), Trealaw yn nyffryn Rhondda Fawr - sylwer ar yr enw - ac yn Miskin Manor.

Serch iddo ddyfod yn gyfoethog parhaodd, 'Alaw Goch' yn glos ei gyswilt â'r dosbarth gweithiol; mynychai eisteddfodau lleol y werin gan lywyddu ynddynt. Prydyddai ei hunan a daeth yn boblogaidd gan gael ei hoffi gan bawb. Rhoes lawer o gymorth ariannol i'r mudiad i gynnal yr eisteddfod genedlaethol bob yn ail flwyddyn â'i gilydd yng Ngogledd ac yn Neheudir Cymru (**D. M. Richards**, *Rhestr Eisteddfodau*, xxv-xxvii). Cyflwynwyd iddo, yn y Temperance Hall, Aberdâr, 15 Ionawr, 1862, dysteb genedlaethol oherwydd ei gymorth i fudiad yr eisteddfodau a'i wladgarwch. Yr oedd dyled pobl Aberdâr yn fawr iddo am yr help nodedig a roddwyd iddynt ganddo adeg yr eisteddfod genedlaethol a gynhaliwyd yno yn 1861 yn enwedig pan chwythwyd i lawr (gan storm) y pafiliwn a godasid ar gyfer yr eisteddfod.

Priododd 'Alaw Goch,' 3 Awst 1837, yn eglwys S. Ioan, Aberdâr, ag Ann Morgan, chwaer **William Morgan** (1819 - 1878), a bu eu cartref ar y cychwyn, sef Ynyscynon, Aberdâr, yn gyrchfan beirdd a llenorion. Yno y ganwyd eu mab, y **barnwr Gwilym Williams**. Bu farw ym Mhenybont-ar-Ogwr, 28 Chwefror 1863, a chladdwyd ef yng nghladdfa gyhoeddus Aberdâr.

Awdur

Watkin William Price, (1873 - 1967)

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru (Aberdâr 1867-70)*, ii, 612

Ben Morus, *Enwogion Aberdâr* (1910)

Gwaith Barddonol Alaw Goch (gol. ' Dafydd Morgannwg')

Y Gwladgarwr, 1858 (bu'n helpu i sefydlu a chynnal y chynnal y cyfnodolyn hwn)

Cardiff and Merthyr Guardian, 7 a 14 Mawrth 1863

Y Geninen, 1900, 86

Cymru (O.M.E.), Awst 1904

Seren Gomer, Hydref 1837, Tachwedd 1858, a Mawrth 1920

The Principality, 29 Mawrth 1850

Y Darian, 18 Awsi 1932

Charles Wilkins, *The South Wales Coal Trade and its Allied Industries, from the Earliest Days to The Present Time* (Caerdydd 1888)

Darllen Pellach

David Williams "Alaw Goch" 1809-1863, gwefan Cynon Culture, gwelwyd 3 Gorffennaf 2019

Neil Collins, *Alaw Goch was a valley legend*, gwefan WalesOnline, gwelwyd 3 Gorffennaf 2019

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q16973316

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Price, W. W., (1953). WILLIAMS, DAVID ('Alaw Goch'; 1809 - 1863), perchennog pyllau glo ac eisteddfodwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILL-DAV-1809>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiwydian
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government